# Cais am Systemau Draenio Llif gwaith

## Cam 1 – Cyflwyno

- [ ] Ffi ar gyfer y Cais wedi'i

**Mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyflwyno:**

- [ ] Cais SuDS llawn
- [ ] Cynllun Lleoliad Safle, sy'n dangos ffiniau'r safle gyda'r Gogledd wedi'i nodi
- [ ] Cynllun yn nodi'r ardal adeiladu a'r strategaeth ddraenio
- [ ] Cynllun cynnal a chadw ffurfiol
- [ ] Cyfrifiadau dŵr wyneb ar gyfer elfennau SuDS arfaethedig

**Os ydynt yn ofynnol, bydd angen y canlynol hefyd:**

- [ ] Datganiad ynghylch p'un ai yw'r datblygiad yn amodol ar Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- [ ] Os ydych yn cynnig am ymdreiddiad, yna canlyniadau profion trylifiad (argymhellir i safonau BRE365)
- [ ] Os ydych yn cynnig cysylltiad â system ddraenio neu garthffosiaeth bresennol, yna dylid cael caniatâd neu gytundeb mewn egwyddor gan berchennog yr ased

**Sylwer**, efallai y bydd angen dogfennau eraill, neu newidiadau i'ch dogfennau, yn dibynnu ar natur eich cyflwyniad. I osgoi oedi, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cyflwyno **Cais Cyn Ymgeisio am Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)** lle byddwn yn eich cynghori ar y dogfennau sydd eu hangen i ddilysu eich cais SuDS llawn, ac yn eich cynghori ar ansawdd eich dogfennau.

## Cam 2 - Dilysu a Chyfnod Ymgynghori

Os yw'r taliad a'r dogfennau i gyd wedi dod i law, a bod y cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol SuDS Llywodraeth Cymru mewn egwyddor, yna dylid...

- [ ] Cais wedi'i ddilysu

C

- [ ] Ymatebion ymgynghorai wedi dod i law

## Cam 3 – Asesiad Technegol

Bydd yr SAB nawr yn asesu eich cais yn dechnegol. Bydd eich cais yn cael ei benderfynu o fewn **7 wythnos**.

**Sylwer,** efallai y bydd rhywun yn cysylltu â chi i gael gwybodaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd angen rhagor o amser arnoch i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, neu, ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth, bod angen mwy o amser ar yr SAB i asesu'ch cynnig yn ddigonol, yna cytunir ar estyniad amser.

| Gwrthod | Cymeradwy |
| --- | --- |
| ☐ Hysbysiad o'r penderfyniad | ☐ Hysbysiad o'r penderfyniad |

Sylwer, o dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, na ddylid dechrau ar y gwaith adeiladu oni bai bod y system ddraenio ar gyfer y gwaith wedi'i chymeradwyo gan yr SAB.

Mae eich cais bellach wedi'i gymeradwyo gan yr SAB. Ar gyfer y camau nesaf y mae'n rhaid i chi eu cymryd, dilynwch ddogfen llif gwaith Mabwysiadu SAB sydd ar gael ar www.carmarthenshire.gov.wales/home/councilservices/planning/sustainable-drainage-approval-body-sab.

A fyddech cystal â chyflwyno Cais SuDS Llawn newydd